


# TRAWSNEWID GWASANAETHAU I GYFLAWNI IECHYD A GOFAL GWELL



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddiadau gan y Gweinidogion i'r GIG yng Nghymru i gefnogi datblygiad eu cynlluniau.

GIG CYMRU NHS WALES

# FFRAMWAITH CYNLLUNIO GIG CYMRU 2026-2029




















## Mynediad Amserol at Ofal

- Sicrhau nad oes unrhyw gleifion yn aros dros 45 munud cyn cael eu trosglwyddo o ambiwlansys.
- Sicrhau nad oes unrhyw gleifion yn treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal mewn argyfwng mawr a bach o adeg cyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Dim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos i gael eu hatgyfeirio am driniaeth.
- Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am brawf diagnostig penodedig – targed o sero.
- Byrddau iechyd i gyflawni targed y llwybr lle'r amheuir canser, sef 75%, drwy roi'r llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar waith, wrth leihau'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros mwy na 62 o ddiwrnodau erbyn diwedd mis Mawrth 2027.

## Iechyd y Boblogaeth ac Atal

- Cynyddu cyfran y plant yng Nghymru sydd o bwysau iach drwy atal y cynnydd mewn lefelau gorbwysau a gordewdra, a chyfrannu at ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn ynddynt, fel y'u mesurir ac yr adroddir arnynt drwy'r Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf difreintiedig.
- Lleihau'r annhegwch yn y defnydd o wasanaethau yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig o ran atal afiechyd, yn enwedig mewn perthynas â brechu, sgrinio ac atal diabetes a darparu gofal ar ei gyfer.
- O leiaf 90% o unigolion a gaiff eu nodi drwy Adnodd Eiddilwch Archwilio+ (neu beth bynnag sy'n ei ddisodli) i gael gofal rhagweithiol yn unol â'u cynlluniau gofal y cytunwyd arnynt.
- Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a throsodd) â diabetes a gafodd yr wyth proses gofal a argymhellir gan NICE.

## Cymunedol o'r Cychwyn

- Sicrhau tuedd o leihad dros 12 mis yn nifer y bobl sy'n wynebu oedi yn yr ysbyty a chyfanswm y dyddiau o oedi i'r cleifion hyn, yn ôl mesur y dangosfwrdd Llwybrau Gofal Gohiriedig.
- Cynnydd yn y capasiti nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau i'r lefelau gofynnol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 o leiaf, ac yn uwch na hynny lle bo modd.

  (Caiff y gofynion a'r disgwyliadau cenedlaethol eu nodi gan Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn).

## Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

- Rhoi Cymorth Iechyd Meddwl Mynediad Agored ar waith a'i werthuso erbyn mis Mawrth 2027.
- Gwella diogelwch mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Eilaidd (a gaiff ei fesur drwy fatrics diogelwch y cytunwyd arno ar gyfer iechyd meddwl a PROM ReQol) erbyn mis Mawrth 2027.
- Gwella iechyd corfforol pobl â phroblemau iechyd meddwl hirdymor drwy gynnal adolygiadau marwolaeth a rhoi cynlluniau gwella ar waith yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd erbyn mis Mawrth 2027.


## Ansawdd a Diogelwch

- Tuedd ar i lawr yng nghyfradd dreigl gyfartalog fras marwolaethau dros 12 mis wrth gynnal cyfradd wastad ar gyfer aildderbyn cleifion dros 7 diwrnod.
- Nifer y diwrnodau o ofal diogel a ddarparwyd ers y digwyddiad "byth" diwethaf, i'w fonitro gan ddefnyddio dulliau ystadegol (siart-T SPC).
- Canran y cwynion a gafodd eu datrys yn gynnar – targed o 40% erbyn mis Mawrth 2027.
- Rhaid i'r gwasanaeth codio clinigol sicrhau bod o leiaf 95% o gyfnodau achosion dydd a chleifion mewnol yn cael eu codio'n llawn o fewn un mis adrodd i ryddhau'r claf, yn unol â mesurau cyflawni Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rhaid cywiro 90% o bob gwall codio a nodir o fewn 35 diwrnod i'w nodi, gan sicrhau y gwneir gwelliannau amserol a chywir i ansawdd data ym mhob bwrdd iechyd. Rhaid bod ffocws ar ansawdd codio gyda phwyslais ar benodolrwydd, a chofnodi cydafiachedd a ddangosir drwy gynnydd o 10% mewn mynegai dyfnder o flwyddyn i flwyddyn.

## Iechyd Menywod

- Ehangu model yr Hwb Iechyd Menywod ymhellach yn ardal pob bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2027 (yn gyson â'r Cynllun Iechyd Menywod).
- Gwella ansawdd ein gwasanaethau mamolaeth drwy leihau cyfraddau marwolaeth amenedigol.

I gael rhagor o wybodaeth am y Camau Galluogi a'r Fframwaith, ewch i: www.llyw.cymru/fframwaith-cynllunio-blynyddol-gig-cymru-2026-i-2029



©Scarlet Design Int. Ltd. 2026